



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol

Ymgynghoriad ar fframwaith deddfwriaethol ar gyfer atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a chynigion ar gyfer sicrhau Cymru fwy cyfartal.

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Ionawr 2020

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddeddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at y cyfeiriad isod erbyn **9 Ionawr 2020 fan bellaf**.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth
Gymdeithasol a Gwaith Teg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ
e-bost:
SocialPartnership@llyw.cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon, yn unol â'u pwerau statudol, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion. Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld
- yr hawl i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny
- yr hawl i wrthwynebu neu gyfyngu (o dan amgylchiadau penodol) ar brosesu eich data personol
- yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni ddileu eich data
- yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo eich data i gorff arall
- yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael ragor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan : <https://ico.org.uk>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

- | | |
|---|-------------------|
| 1. Crynodeb | tudalen 1 |
| 2. Yr hyn rydym am ei gyflawni | tudalen 3 |
| 3. Atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol | tudalen 5 |
| 4. Manteision partneriaeth gymdeithasol | tudalen 6 |
| 5. Diben cyffredin | tudalen 8 |
| 6. Yr angen am newid | tudalen 10 |
| 7. Deddfu dros newid | tudalen 11 |
| 8. Cynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol | tudalen 13 |
| 9. Casgliadau | tudalen 17 |

Atodiad 1 – Crynodeb o'r Effeithiau

Atodiad 2 - Crynodeb o'r Cwestiynau

Atodiad 3 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rhagair y Gweinidog

O'r dechrau un, mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir bod economi gynhwysol yng Nghymru lle y gall pawb ffynnu, ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, yn hanfodol i'n gweledigaeth i sicrhau bod Cymru yn wlad fodern, garedig a mwy cyfartal.

Un o'r pethau cyntaf yr ymrwymodd iddo oedd atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, i gyflawni agenda ddiwygiedig fwy uchelgeisiol i sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol gwell. Dywedodd y byddai'r agenda hon yn cael ei llywio gan ganfyddiadau'r Comisiwn Gwaith Teg a gyhoeddwyd ynghynt eleni.

Rydym yn glir mai ein gweithlu yw ased economaidd gorau Cymru. Mae'n hanfodol i yrru ein heconomi ymlaen mewn marchnad gystadleuol fyd-eang ar y naill law, ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol hanfodol ar y llall. Mae ein gweithlu wedi cynnal ein gwlad drwy argyfyngau economaidd ac wedi parhau i wneud gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus – yn ystod degawd o bolisiâu cyni gan Lywodraeth y DU. Yn yr un modd, mae llawer o gyflogwyr da yng Nghymru sy'n talu cyflog teg, yn gwerthfawrogi eu staff, yn cynnwys eu gweithlu yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn buddsoddi mewn datblygiad staff. Rydym am i bob gweithiwr yng Nghymru gael yr un profiad.

Er y lefelau cyflogaeth cryf rydym wedi eu weld, mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn parhau i ehangu; mae tlodi pobl sydd mewn gwaith yn gwaethygu; mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau; ac mae arferion cyflogaeth ansefydlog megis contractau dim oriau bellach yn gyffredin mewn rhai rhannau o'r farchnad lafur – gan adael pobl heb sicrwydd ynghylch eu hincwm pob dydd. Yn ogystal bydd newidiadau byd eang sy'n dod i'r amlwg megis awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn ychwanegu at y cyfleoedd ar gyfer busnesau a gweithwyr yn y dyfodol – yn ogystal â'r heriau y byddant yn eu hwynebu.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu'r cynigion sy'n sail i'n hymrwymiad i sicrhau Cymru fwy cyfartal. Mae'n cynnig deddfwriaeth i greu trefniadau statudol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â'r darpariaethau cysylltiedig, a fydd yn creu fframwaith ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol, yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth a chydweithio.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich ymatebion.



Julie James AC

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Crynodeb

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol. Nod y Bil fydd atgyfnerthu'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, er mwyn ystyried a sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol gwell ar gyfer gweithwyr yng Nghymru ar draws yr economi.
2. Diben y mesurau arfaethedig hyn yw creu sail statudol ar gyfer partneriaethau cymdeithasol fel rhan o'r ymatebion i ganfyddiadau'r Comisiwn Gwaith Teg, a wnaeth gyfres o argymhellion ynghylch sut y dylai Llywodraeth Cymru annog arferion gwaith teg ledled Cymru. Mae'r cynigion yn rhan o'n huchelgais ehangach i ysgogi rhagor o gydraddoldeb cymdeithasol a thwf economaidd cynhwysol.
3. Ein nod cyffredinol wrth hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol yw gwella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus a mabwysiadu dulliau mwy cytbwys ar gyfer datblygu economi Cymru. Mae'n rhan annatod o'n nod ehangach ni i leihau anghydraddoldeb. Mae'n ategu'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau bod gan bawb yr un cyfleoedd da ar gyfer dysgu, waeth beth yw eu statws economaidd; i sicrhau bod salwch y gellir ei atal yn cael ei osgoi; ac i sicrhau bod mesurau ar waith i leihau'r pwysau ariannol ar aelwydydd.
4. Bydd y Bil yn grymuso ein trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, gan roi sicrwydd a strwythur i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn tirwedd sy'n fwy cymhleth, integredig a chydweithredol.
5. Er mwyn gwireddu ein huchelgais ar gyfer canlyniadau gwell, mwy cyson a mwy cyfartal sy'n sicrhau bod gweithwyr Cymru ym mhob sector yn elwa ar y twf economaidd, disgwylir trefniadau symlach a chryfach ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, wedi'u hategu â darpariaethau clir newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru.
6. Mae partneriaeth gymdeithasol yn cyfeirio at ffyrdd mwy rhyngweithiol o weithio, ac yn fwy cyffredinol at syniad – gwerth a ddylai fod yn sail i bopeth rydym yn ei wneud. Gall annog cydweithio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n ffordd o annog twf economaidd a gwelliannau i lesiant. Mae partneriaeth gymdeithasol yn dod â llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur at ei gilydd i drafod materion mae gan bob parti ddiddordeb ynddynt, er mwyn cynllunio a gweithredu atebion gwell. Mae adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg yn hyrwyddo'r dull hwn er mwyn gwella ansawdd cyflogaeth yng Nghymru. Yn ei gyd-destun ehangach mae'n rhan o ymateb mwy cyffredinol i anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd, ac mae'n cyfrannu at y nodau llesiant sy'n creu'r fframwaith ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.
7. Felly, rydym yn cynnig Bil i atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol ac i ategu ein huchelgais ar gyfer Cymru fwy cyfartal sy'n gwneud y canlynol:
 - sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;

- rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac i hyrwyddo amcanion gwaith teg;
- ei gwneud yn ofynnol i rai gyrff cyhoeddus lunio strategaeth gaffael yn unol â chanllawiau statudol.

Yr hyn rydym am ei gyflawni

- 8 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers cryn amser i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol – rydym wedi gosod amcan llesiant inni ein hunain i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhanbarthau ac i hyrwyddo gwaith teg. Yn ystod y ddau ddegawd ers datganoli, rydym wedi ceisio cefnogi'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas wrth i amgylchiadau economaidd newid, gan liniaru'r pwysau trymaf ar gyllidebau cyhoeddus ers y rhyfel, a degawd o bolisiau cyni Llywodraeth y DU.
- 9 Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau tymor hir – gwelliannau ein bod yn gwybod y byddant yn gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer pawb. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu system addysg gynhwysol, sy'n adlewyrchu ein cred y dylai pawb gael yr un cyfleoedd ansawdd uchel i ddysgu, waeth beth yw eu man cychwyn. Rydym yn darparu rhaglenni sydd â'r nod o roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn, gyda chymorth ychwanegol ar gyfer y rhai ac arnynt yr angen mwyaf. Rydym wedi ymrwymo i agenda hyrwyddo iechyd da, gan atal salwch y gellir ei osgoi lle bynnag y bo modd, ac i GIG Cymru sy'n gallu trin pawb yn effeithiol os byddant yn sâl. Mae poblogaeth iachach sydd wedi derbyn addysg dda mewn sefyllfa well i fanteisio ar y swyddi rydym yn helpu busnesau yng Nghymru i'w creu.
- 10 Er mai gwaith yw'r ffordd orau o ddianc o dlodi, mae mwy a mwy o bobl sydd mewn gwaith yn ei chael yn anodd cael y ddau ben at ei gilydd. Er bod lefelau cyflogaeth yn uchel, mae'r bwlch rhwng y cymunedau cyfoethocach a'r rhai tlotaf yn parhau i ehangu. Ar gyfer llawer, mae'r cynnydd yn eu cyflogau wedi bod yn is na'r cynnydd mewn costau byw, ac mae trefniadau cyflogaeth wedi dod yn fwy ansefydlog a llai diogel. Nid yw manteision twf economaidd yn cael eu rhannu'n gyfartal, ac mae pobl yn cael eu gadael ar ôl wrth i'r lefelau o dlodi mewn gwaith godi.
- 11 Rydym wedi cymryd camau i helpu pobl i wneud i'w hincwm fynd ymhellach, gyda pholisiau ar ffurf y cysyniad o gyflog cymdeithasol, sy'n gwarantu y bydd pawb yn derbyn cymorth i ymdopi ag amgylchiadau anodd a'u bod yn gallu elwa ar gyfleoedd ar gyfer dyfodol gwell. Drwy bolisiau megis presgripsiynau am ddim i bawb, teithio am ddim ar gyfer pobl hŷn, parhau'r Lwfans Cynnal Addysg, brechwastau ysgol am ddim, gofal plant ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio a'r Cynllun Lleihau'r Dreth Cyngor, rydym yn sicrhau bod gan bobl ragor o arian yn eu pocedi ac yn lleihau pwysau ariannol bywyd pob dydd.
- 12 Rydym yn gwrthod derbyn bod rhagor o anghydraddoldeb yn anochel. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddianc o dlodi a'r llwybr gorau i fywydau boddhaus, a'r effaith ar iechyd a llesiant, yw creu swyddi gwerth chweil sy'n talu cyflog teg. Economi fywiog, gymdeithasol gyfiawn yw'r sbardun sy'n sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sydd ar gael i bawb.
- 13 Mae'r materion sydd o dan sylw'n gymhleth – maent yn ymwneud â'r ffordd rydym yn cefnogi i bobl yng Nghymru, sut rydym yn gofalu am iechyd pobl Cymru, a'r ffordd rydym yn darparu'r amgylchedd sy'n helpu busnesau i ffynnu a'r ffordd mae busnesau'n gwobrwyo'r bobl sy'n gweithio iddynt. Rydym yn

credu bod economi gref a gwaith teg yn mynd law yn llaw – maent yn elfennau anhepgor o dwf cynaliadwy a chadernid economaidd. Yn ogystal â manteision uniongyrchol gwaith teg, bydd sicrhau gwaith teg yn ein helpu i sicrhau economi gryfach, fodern a mwy cynhwysol. Mae'n golygu gweithlu mwy cynhyrchiol, hapusach gyda lefelau uwch o ymrwymiad ac ymgysylltiad, llai o absenoldeb a throsiant staff is.

- 14 Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ganolog i'n cynllun gweithredu ar yr economi, ac mae ein contract economaidd wedi cyflwyno'r egwyddor bod ein cymorth ariannol yn cael ei roi ar sail 'rhywbeth yn gyfnewid'. Mae busnesau'n cefnogi'r dull hwn – sy'n sicrhau nad yw busnesau cyfrifol o dan anfantais. Rydym yn defnyddio pob mecanwaith sydd ar gael i annog a gwobrwyo safonau ymddygiad o'r radd flaenaf. Yn gyson â'n cynigion ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, yn fuan byddwn ni'n ymgynghori ar weithredu darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a fydd yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith economaidd-gymdeithasol eu penderfyniadau allweddol.
- 15 Yn 2017 amlinellodd Llywodraeth Cymru uchelgais clir i wneud Cymru yn wlad sy'n hyrwyddo gwaith teg – gwlad lle mae'r economi'n tyfu ond lle mae'r manteision yn cael eu rhannu yn ehangach ac mewn modd mwy cyfartal. Gwnaethom benodi Comisiwn Gwaith Teg, a'u gofyn i wneud argymhellion ar sut gall Llywodraeth Cymru hyrwyddo ac annog gwaith teg yng Nghymru.
- 16 Mae ein hymateb arfaethedig i argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg yn rhan o fframwaith ehangach o weithgareddau i sicrhau Cymru fwy cyfartal. Er enghraifft, roedd annibyniaeth economaidd i fenywod yn un o argymhellion adroddiad yr Adolygiad o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau.
- 17 Mae ein cynigion i ddatblygu a sefydlu partneriaeth gymdeithasol yn deillio o ddyhead i sicrhau ein bod yn lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol wrth ar yr un pryd gefnogi twf economaidd. Dylai partneriaethau gwell rhwng cyflogwyr a chyflogeion fod yn sbardun ar gyfer sicrhau Cymru ffyniannus. Mae'n glir nad ydym yn gallu gwneud cynnydd ar yr agenda uchelgeisiol hon heb weithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a chyda'r undebau llafur.
- 18 Mae partneriaeth gymdeithasol yn fecanwaith ar gyfer datblygu amodau lle y gall yr economi ffynnu, a hyrwyddo mesurau sy'n seiliedig ar egwyddorion 'gwaith teg'¹, gan gynnwys:
 - Tâl a buddion teg;
 - Llais y cyflogwr a chynrychiolaeth gyfunol;
 - Sicrwydd a hyblygrwydd;
 - Cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a datblygiad;
 - Amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol;
 - Hawliau cyfreithiol sy'n cael eu parchu ac sy'n cael effaith wirioneddol.

¹Fel y diffinnir yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, 'Gwaith Teg Cymru' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf>

- 19 Ein hased gwasanaeth cyhoeddus gorau yw gweithlu ymroddedig ein gwasanaethau cyhoeddus. Os yw'n derbyn y sylw priodol, a chydag ymroddiad ein partneriaid cymdeithasol, prif ddiben partneriaeth gymdeithasol fydd gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Mae'n rhoi rhagor o ffocws i staff ac yn sicrhau eu bod yn hapusach ac yn llawn egni ac yn meddu ar y sgiliau i fodloni'r galw cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus.
- 20 Ar yr un pryd, mae dull gweithredu mwy cyson ar draws y sector cyhoeddus yn ysgogi gwasanaethau cyhoeddus gwell sy'n rhannu gwerthoedd – ac sy'n hyblyg, ymroddedig ac ymatebol. Ni ddylid ystyried egwyddorion gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol yn annibynnol ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Maent yn rhan annatod o'r gwelliannau rydym yn ceisio eu gwneud i wasanaethau cyhoeddus.
- 21 Mae ein cynigion yn atgyfnerthu ein trefniadau presennol ac yn sicrhau ein bod yn creu seilwaith i reoli ein heconomi a'n gwariant cyhoeddus mewn ffordd sydd o fudd i bawb – ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gwell, ar gyfer busnesau yng Nghymru ac ar gyfer gweithlu Cymru gyfan. Yn ogystal â deddfwriaeth newydd, byddwn yn edrych ar sut y gall polisiâu Llywodraeth Cymru a'n mecanweithiau cyllid sicrhau pecyn gwaith teg i gyd-fynd â'r deddfwriaeth.

Atgyfnerthu partneriaeth gymdeithasol

- 22 Mae ein partneriaeth â'r undebau llafur a chyflogwyr yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithio fel Llywodraeth. Drwy ddod at ein gilydd i drafod a chydweithio, gallwn ddatrys problemau a dod o hyd i atebion i'r heriau economaidd mae Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.
- 23 Ers datganoli mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau blaengar ac wedi cyflwyno set unigryw o werthoedd, gan gyflawni gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus a datblygu ein heconomi drwy'r model partneriaeth hwn, sy'n seiliedig ar egwyddorion uniondeb, gonestrwydd, dilysrwydd ac ymddiriedaeth. Cydweithio yn hytrach na chystadlu fu'r sail i'r gwaith hwn – a'r gred mai nodweddion y ffordd mae Cymru yn gwneud pethau yw partneriaeth, rhannu problemau ac ymrwymiad i ddatrys problemau gyda'n gilydd. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori yn ein deddfwriaeth flaenllaw, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff feddwl am effaith hir tymor eu penderfyniadau.
- 24 Wrth wraidd ein partneriaeth gymdeithasol mae seilwaith cryf a pharhaus lle mae trafodaethau anodd a phenderfyniadau ynghylch polisiâu'n derbyn sylw mewn amgylchedd o barch cilyddol a chydweithredu sefydliadol.
- 25 Mae llawer o drefniadau sefydledig ar gyfer partneriaeth gymdeithasol rhwng sefydliadau unigol, grwpiau sy'n cynrychioli sectorau cyfan a'r undebau llafur sy'n cael eu cydnabod yng Nghymru – yr oedd rhai ohonynt yn bodoli cyn datganoli – sydd i gyd yn cyfrannu at arfer diwylliannol cyffredin sy'n diffinio partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Nid ydym yn awgrymu y dylai pob un o'r trefniadau effeithiol presennol hyn gael eu disodli.

- 26 Rydym am sicrhau bod y prif strwythurau strategol sydd wedi cael sefydlu gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol ar draws yr economi a gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hatgyfnerthu. Ar hyn o bryd y rhain yw Cyngor Datblygu'r Economi a'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol yn y sector busnes, Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'i Gyd-bwyllgor Gweithredol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn ddiweddarach y Grŵp Cyfeirio Partneriaid Cymdeithasol llai sy'n cynnwys aelodau o'r ddau grŵp uchod.
- 27 Nid yw strwythurau partneriaeth gymdeithasol wedi cael eu datblygu mewn gwagle, ond mewn fframwaith ehangach sy'n pwysleisio cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd economaidd gwell. Er enghraifft, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dod â chyrrff cyhoeddus allweddol ledled Cymru at ei gilydd ar lefel ranbarthol, er mwyn darparu gwasanaethau gwell a mwy integredig ar gyfer dinasyddion, ac mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu manteision statws Bargaen Ddinesig cymaint ag y bo modd ar gyfer ardaloedd allweddol ledled Cymru. Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal iechyd gwell a mwy effeithiol ar gyfer cleifion.
- 28 Yn rhannol mae'r newidiadau hyn yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd. Ond maent hefyd yn adlewyrchu'n ddyfnach ddull Llywodraeth Cymru sy'n rhoi blaenoriaeth i weithio ar y cyd ac mewn modd cynhwysol.
- 29 Rydym wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn dod i gytundeb â phartneriaid cymdeithasol mewn meysydd cynhennus, gan ein bod yn credu y gall deialog greadigol ddod â phersbectifau newydd ac atebion arloesol i broblemau ystyfnig yn y gweithle, a'n helpu i ddatblygu dull ehangach ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd.

Manteision partneriaeth gymdeithasol

- 30 Roedd partneriaeth gymdeithasol yn rhan o ddull Llywodraethau dilynol y DU yn ystod y consensws ar ôl y rhyfel, a dyma'r dull safonol mae llawer o wledydd ledled Ewrop yn ei ddefnyddio, gan gynnwys yr Almaen, Gwlad Belg, Sbaen, Iwerddon, yr Eidal, Gwlad Groeg, y Ffindir a Phortiwgal. Mae'r ffaith bod gwledydd blaengar yn defnyddio partneriaeth gymdeithasol yn helaeth yn ategu cyfreithlonrwydd y ffordd hon o weithio ac y rhoi enghreifftiau y gellir eu harchwilio wrth greu deddfwriaeth ar gyfer trefniadau yng Nghymru.
- 31 Mae ein cynigion i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol yn seiliedig ar dystiolaeth o'r effaith y gall partneriaeth gymdeithasol, gyda chydffargainio a chynrychiolaeth gan yr undebau llafur wrth ei gwraidd, ei chael ar sicrhau cymdeithas fwy cyfartal. Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol wedi dangos bod gwledydd sydd â threfniadau cydgysylltiedig iawn ar gyfer cydffargainio yn tueddu i fod yn fwy cydraddol o ran cyflogau, yn gweld diweithdra is a llai parhaus, ac yn cael llai o streiciau a streiciau byrrach na gwledydd lle nad yw

cydfargeinio mor sefydledig. Mae cydfargeinio yn dod â manteision ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr, gan sicrhau bod gan y ddau lais cyfartal a'u bod yn gallu dod i gytundebau sy'n deg ac yn gyfiawn. Mae egwyddorion cydfargeinio a rhyddid i ymgysylltu wedi eu hen sefydlu yn ein hanes gweithio, ac ni fydd estyn trefniadau cydfargeinio ledled Cymru ond yn atgyfnerthu ein model ar gyfer partneriaeth gymdeithasol.

- 32 Mae partneriaeth gymdeithasol wedi gwneud cryn wahaniaeth i'n canlyniadau economaidd dros yr 20 mlynedd diweddfaf. Mewn partneriaeth gymdeithasol mewn cyfres o uwchgynadleddau ar yr economi y cafodd polisiau blaenllaw Llywodraeth Cymru eu datblygu i gefnogi, yn benodol, y sector gweithgynhyrchu yn ystod y dirywiad a ddaeth yn sgil y cwmp ariannol yn 2008. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, cafodd rhaglen a oedd yn werth miliynau o bunnoedd ei rhoi ar waith i gefnogi'r sector gweithgynhyrchu y gellid ei defnyddio pan oedd y galw yn yr economi'n isel. ProAct oedd enw'r rhaglen, ac roedd yn gwella sgiliau'r gweithlu ar adeg pan oedd y galw'n isel; gan baratoi'r busnesau hynny i fanteisio i'r eithaf ar welliant wrth amddiffyn swyddi. Roedd yn seiliedig ar amcan cyffredin i helpu pobl a busnesau i oroesi'r dirywiad economaidd.
- 33 Mewn gwasanaethau cyhoeddus hefyd rydym wedi datblygu atebion allweddol i'r heriau ariannol – a achoswyd yn bennaf gan agenda gyntaf Llywodraeth y DU – mewn partneriaeth gymdeithasol drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu. Rydym wedi cytuno ar brotocol a chanllawiau traws-sector ar gyfer y sector cyhoeddus ar gyfer prosesau rheoli newid sefydliadol, a threfniadau gwarchoddedig ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017. Rydym wedi hyrwyddo egwyddorion gwaith teg ar gyfer gweithlu ein sector cyhoeddus, gyda chytundebau traws sector ar gyfer amrediad o faterion sy'n gysylltiedig â gweithlu'r sector cyhoeddus – er enghraifft, defnyddio contractau dim oriau mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Rydym wedi cadw cod gweithlu dwy haen (a gafodd ei dynnu'n ôl yn flaenorol gan Lywodraeth y DU), gan amddiffyn ein staff sydd ar gcontract allanol a staff newydd sy'n gweithio ar gcontractau gwasanaeth cyhoeddus.
- 34 Drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu rydym wedi hyrwyddo cyflogau gwell drwy bartneriaeth gymdeithasol, ac mae'r Cyflog Byw Go lawn wedi cael ei fabwysiadu ar draws GIG Cymru, mewn nifer o awdurdodau lleol, mewn parciau cenedlaethol, mewn Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Yn y sector preifat mae ein contract economaidd yn hyrwyddo ac yn cefnogi arferion busnes a chyflogaeth cyfrifol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o fanteision y Cyflog Byw Go lawn. Rydym hefyd yn hyrwyddo'r Cyflog Byw Go lawn yn ein Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- 35 Drwy bartneriaeth gymdeithasol rydym wedi osgoi rhywfaint o'r gweithredu diwydiannol a fu yn Lloegr – mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân, contractau meddygon iau a llwyth gwaith athrawon. Mewn ymateb i'r agenda cyflogau cyfartal yn yr awdurdodau lleol, daeth yr undebau llafur a chyflogwyr yng Nghymru i gytundeb. Helpodd hyn i osgoi'r lluo o hawliadau a wnaed drwy gyfreithwyr dim ennill dim ffi yn Lloegr, a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig

ag ymglyfreithio – gan gadw'r arian o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus. Ni ddigwyddodd hyn ar hap a damwain. Mae'n ganlyniad perthynas weithio rhwng partneriaid sy'n seiliedig ar ymrwymiad cyffredin i ddatrys problemau yn y gweithlu ar y cyd, mewn amgylchedd strwythuredig. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu nad yw ein sylw'n cael ei dynnu o'n hamcan cyffredin i ddarparu gwasanaethau effeithiol yng Nghymru.

- 36 Ein bwriad yw creu seilwaith cryfach er mwyn i lywodraeth, undebau a chyflogwyr weithio gyda'i gilydd i ddarparu rhagor o'r manteision hyn. Er bod gennym hanes cryf o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, mae strwythurau wedi datblygu ar sail ad hoc, ac rydym yn ceisio sefydlu trefniadau mwy cadarn, mwy cyson, er mwyn darparu sail barhaol i ddod at ein gilydd ar draws y sectorau cyhoeddus a'r sectorau preifat i drafod meysydd sydd o ddiddordeb i bob parti.
- 37 Bydd ein cynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol yn codeiddio ein trefniadau mewn cyfraith ac yn darparu sail gadarn i ddwysáu'r gweithredu i sicrhau gwaith teg. Rydym yn atgyfnerthu ein seilwaith partneriaeth gymdeithasol i ymdopi ag agenda fwy uchelgeisiol, gan bennu'r cyfeiriad ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwerthoedd economaidd blaengar rydym am eu sefydlu mewn cymdeithas gynhwysol lle mae pawb ar eu hennill.

CWESTIWN 1: A ydych yn cytuno â'r cynigion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt?

Diben cyffredin

- 38 Mae partneriaeth gymdeithasol yn gweithio orau pan fydd partneriaid yn gweithio tuag ag amcan cyffredin sydd wedi cael ei ddiffinio'n glir. Mae economi fywiog o fudd i bob un ohonom. Rydym wedi bod yn glir nad yw ein hamcan i sicrhau twf economaidd wrth leihau anghydraddoldeb yn rhywbeth y gallwn ni ei gyflawni ar ein pennau ein hunain – dim ond trwy weithio gyda'n gilydd yr ydym yn gallu gwneud cynnydd sy'n helpu pob partner.
- 39 Mae gwaith yn cael effaith sylfaenol ar bob rhan o fywyd gweithwyr a dinasyddion yng Nghymru. Mae'n gallu ffurfio'r ffordd maent yn byw eu bywyd a sut maent yn rhyngweithio â'r rhai o'u hamgylch. Mae gwaith teg â chyflog a buddion da, neu ei ddiffyg, yn cael effaith ar ein llesiant meddyliol a'n bywyd teuluol; ar ein gallu i dalu biliau pob dydd ac i ofalu am y rhai sy'n dibynnu arnom – neu i gael mynediad at y gweithgareddau hamdden a diwylliannol sy'n cyfoethogi ein bywyd. Mae ein bywyd gwaith yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywyd y tu allan i'r gwaith, a gall gwaith teg, neu ei ddiffyg, gael effaith drawsnewidiol ar fywydau dinasyddion Cymru. Mae ein rhaglenni Llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi pobl ym mhob agwedd ar eu bywyd, gan sicrhau bod gwaith teg ar gael i bawb – fel budd sylfaenol sy'n hanfodol i lesiant pobl Cymru.
- 40 Rydym yn cydnabod bod y dewisiadau mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud yn dylanwadu ar ein bywydau gwaith – o'n haddysg a'n

blaenoriaethau hyfforddiant i hygyrchedd a dibynadwyedd trafniadaeth gyhoeddus, a phopeth yn y canol. Rydym hefyd yn llunio'r seilwaith economaidd mae busnesau Cymru yn gweithredu ynddo.

- 41 Mae busnesau'n penderfynu sut maent yn gweithredu a sut maent yn gwobrwyo a rhyngweithio â'u gweithwyr. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn talu cyflogau da, yn darparu cyfleodd i weithwyr ddatblygu ac yn deall pwysigrwydd trafodaethau strwythuredig â staff. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd busnesau anghyfrifol, ar adegau, yn ceisio gweithredu'n rhatach na'u cystadleuwyr drwy dorri corneli. Rydym yn awyddus i ddeall lle mae hyn yn digwydd ac i sicrhau nad yw polisiâu neu'r ffordd mae'r Llywodraeth yn caffael cynhyrchion a gwasanaethau'n annog hyn.
- 42 Er nad yw cyfreithiau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol wedi cael eu datganoli, byddwn yn defnyddio pob cyfle o fewn ein setliad datganoli i wella ansawdd bywydau pobl yn eu gwaith ac yn eu bywyd pob dydd. Er enghraifft, rydym yn penderfynu ynghylch yr amodau sy'n gysylltiedig â'n pŵer gwario, ac rydym yn bwriadu, yn dilyn trafodaeth â'n partneriaid cymdeithasol, sut rydym yn sicrhau tegwch a chydaddoldeb i bawb.
- 43 Mae'r ffordd rydym yn defnyddio partneriaeth gymdeithasol yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin yng Nghymru – sef bod yr undebau llafur yn rhan fwy annatod o'r gweithle a diwylliant cymunedol nag y maent yng ngweddill y DU. Mae gwreiddiau ein trefniadau partneriaeth yn y berthynas weithio agos yn y cymunedau diwydiannol hanesyddol, a oedd yn grud gweithredu'r undebau llafur a gweithredu cyfunol cymunedau. Mae'r model ar gyfer partneriaeth gymdeithasol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio yn gweithio o fewn y fframwaith diwylliannol hwn i wella gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau economaidd, gan gynnal cysylltiadau cryf â'r gweithlu.
- 44 Wrth wraidd ein partneriaethau cymdeithasol mae seilwaith cryf a pharhaus lle mae trafodaethau anodd yn cael eu cynnal a phenderfyniadau ynghylch polisiâu'n cael eu gwneud, mewn amgylchedd o barch cilyddol a chydweithredu sefydliadol.
- 45 Mae'r system hon yn gweithio yng Nghymru oherwydd, er ei fod yn isel o gymharu â'r gorffennol, mae aelodaeth undebau llafur yng Nghymru yn parhau i fod ymhlith yr uchaf mewn unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU, gyda 30.5% o'r gweithlu yn aelod o undeb llafur – bron 390,000 o aelodau. Yng Nghymru mae mwy o gyflogeion â phresenoldeb undeb llafur yn y gweithle ac, at ei gilydd mae mwy o gyflogeion sy'n rhan o gytundebau cyfunol o gymharu â gweddill y DU. Mae hyn yn golygu bod partneriaeth gymdeithasol yn sail dda ar gyfer trafodaethau parhaus a strwythuredig â gweithwyr a chyflogwyr.
- 46 Pan fydd cyflogwyr, llywodraeth ac undebau'n cytuno, mae lle i wneud gwelliannau sylweddol i arferion cyflogaeth. Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu wedi sicrhau gwelliannau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi darparu manteision i bawb. Mae sicrhau canlyniadau teg

yn gallu bod yn heriol, ac mae angen inni ystyried sut y gallen ni weithio'n well ar draws y sector cyhoeddus.

47 Mae ein profiad o'r Comisiwn Gwaith Teg wedi dangos bod y rhain yn faterion lle mae cyflogwyr, undebau a llywodraeth am weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion cyffredin. Rydym yn cynnig y dylem seilio ein strwythurau partneriaeth gymdeithasol ar weithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar allu pobl i ymgysylltu a ffynnu yn y gweithle, ac ar allu busnesau i ffynnu. Bydd hyn yn ein helpu wrth inni ymateb i'r Comisiwn Gwaith Teg.

CWESTIWN 2: A ydych yn cytuno y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal?

Yr angen am newid

48 Mae cyfnod modern ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol wedi cael ei ddominyddu a'i lunio gan ein hymateb i'r argyfwng economaidd a'r heriau o ganlyniad i bolisiau cyni cronig y DU ar gyfer y sector cyhoeddus. Rydym wedi sicrhau cyfraddau cyflogaeth uwch, ond mae economi a sector cyhoeddus Cymru yn parhau i wynebu problemau difrifol a hirdymor, wedi eu gwneud yn waeth gan yr ansicrwydd presennol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE.

49 Er yr heriau hyn, rydym wedi cryfhau sylfeini economi Cymru. Mae ein marchnad lafur yn perfformio'n gryf. Mae nifer y bobl mewn gwaith wedi cynyddu 150,000 bron ers yn gynnar yn 2010, ac mae nifer y bobl ddi-waith wedi gostwng 73,000. O gymharu â'r sefyllfa yn syth cyn datganoli, mae'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth a'r gyfradd anweithgarwch rhwng Cymru a'r DU wedi gostwng. Heddiw nid yw'r gyfradd diweithdra yng Nghymru ond ychydig yn uwch na chyfradd y DU. Mae gennym fwy o fusnesau nag erioed yn gweithredu yng Nghymru, ac mae mwy o fusnesau newydd yn cychwyn arni bellach nag yn ystod y degawd diwethaf. Mae ein hallforion a'n lefelau Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor yn parhau i wneud argraff sy'n dangos yr hyder sydd gan wledydd eraill yn ansawdd busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau Cymru.

50 Rydym yn credu bod angen y ffocws a'r cydweithredu a'n helpodd ni i wrthsefyll effaith yr argyfwng economaidd ac a liniarodd bolisiau cyni Llywodraeth y DU yn gyson ar yr adeg hon, os ydym am wella canlyniadau gwaith teg ar gyfer pobl ledled Cymru.

51 Mae'r farchnad lafur wedi newid yn sylweddol o fewn cyfnod byr, ac mae angen y seilwaith arnom i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol cynyddol ac i wneud yn siŵr bod pawb yn elwa ar waith yn yr un modd.

52 Rhwng 2015–16 a 2017–18 roedd 24% o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol, yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r data diweddaraf yn awgrymu bod y cyflog cyfartalog yng Nghymru yn 90% o'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu rhagor o weithwyr mewn sectorau lle mae cyflogau'n is.

- 53 Mae hefyd arferion cyflogaeth sy'n peri pryder. Er enghraifft, er bod achlysuron lle mae contractau dim oriau'n gyfleus ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr, mae llawer o achlysuron lle maent yn rhoi pobl mewn sefyllfa fregus ac yn peri ansicrwydd o ran incwm. Mae amcangyfrifon data swyddogol yn awgrymu bod 2.5% o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau yn 2018. Mae hyn yn arbennig o gyffredin ym meysydd gofal cymdeithasol, lletygarwch, y sector bwyd ac ar draws yr economi 'gig'.
- 54 Mae Cymru yn parhau i gael problemau o ran cynhyrchiant, gyda'r allbwn fesul awr sy'n cael ei gweithio yn un o'r isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae lefelau cymwysterau yng Nghymru yn is na gweddill y DU, gyda rhagor o amrywiaeth ranbarthol o ran lefelau addysg ffurfiol, sydd yn ei thro yn cael effaith ar y ganran o swyddi ansawdd uchel yng Nghymru.
- 55 Mae'r rhain yn broblemau cymhleth ac ystyfnig – na all un unigolyn neu bartner eu datrys ar ei ben ei hun. Yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi rydym yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol, a thargedu ein cymorth a'n polisiau at y bobl, y busnesau a'r lleoedd hynny y mae arnynt eu hangen er mwyn goroesi a ffynnu. Mae ein profiad gyda Chyngor Datblygu'r Economi a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu yn dangos pan fydd llywodraeth, yr undebau llafur a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd, rydym yn gallu dod o hyd i atebion arloesol i broblemau, yn seiliedig ar ein diben cyffredin. Mae hyn yn cefnogi economi lwyddiannus lle mae busnesau ac unigolion yn rhannu'r manteision. Mae partneriaethau cymdeithasol yn seiliedig ar gyfraniad arbennig pob partner.

Deddfu dros newid

- 56 Rydym yn bwriadu atgyfnerthu'r fframwaith hwn â sail statudol er mwyn gwneud ein disgwyliadau'n gliriach ac i sefydlu'r strwythurau a'r fframwaith sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r agenda uchelgeisiol i sicrhau Cymru fwy cyfartal.

Y fframwaith deddfwriaethol

- 57 Mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n darparu fframwaith strategol ar gyfer cydweithio sy'n ategu ein cynigion i godeiddio ein trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, ac i ddarparu plattform ar gyfer sicrhau Cymru fwy cyfartal.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- 58 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran 75) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun sy'n esbonio sut y byddant, wrth arfer eu swyddogaethau, yn ystyried buddiannau busnesau. Cafodd Cyngor Datblygu'r Economi ei sefydlu i fod yn gorff cenedlaethol sy'n darparu cyngor i lywio

polisiâu busnes ac economaidd. Mae aelodau'n cynnwys Gweinidogion, Llywodraeth Cymru, TUC Cymru a Commerce Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 59 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y tymor hir yn eu cynlluniau, yn gweithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, yn ceisio osgoi problemau ac yn gweithio mewn modd mwy cydgysylltiedig.
- 60 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu ei bod yn rhaid iddynt weithio tuag at saith nod llesiant (sy'n amlinelliad o'r weledigaeth mae'r Ddeddf yn bwriadu ei chyflawni ar gyfer Cymru) drwy'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod 'amcanion llesiant' wedi eu llunio i gynyddu eu cyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant cymaint ag y bo modd.
- 61 O fewn egwyddor datblygu cynaliadwy mae pum ffordd o weithio sy'n cael eu cyfuno i helpu cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd yn well, i osgoi gwneud yr un camgymeriadau a wnaed yn y gorffennol ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir sy'n wynebu Cymru.

Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017

- 62 Yn 2017 pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) mewn ymateb i Ddeddf yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU 2016.
- 63 Gwnaeth Deddf Cymru ddileu elfennau o Ddeddf yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU (yn gymaint ag yr oeddent yn cael eu hystyried yn gymhwysedd deddfwriaethol) a oedd yn ceisio cyfyngu gweithgareddau'r undebau yn y sector cyhoeddus drwy newid trefniadau mewn perthynas â:
- sut mae tanysgrifiadau undeb yn cael eu casglu;
 - yr amser a ganiateir yn ystod y diwrnod gwaith ar gyfer gweithgareddau undeb;
 - pleidleisio dros weithredu diwydiannol megis y nifer isaf o bleidleiswyr a'r trothwyon ar gyfer gweithredu diwydiannol.
- 64 Roedd Llywodraeth Cymru yn credu bod y darpariaethau hyn yn cael effaith niweidiol ar y berthynas rhwng yr undebau a chyflogwyr ac ar y trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rhan 1: Y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol)

- 65 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae hon yn dweud:

66 *“An authority to which this section applies must, when making decisions of a strategic nature about how to exercise its functions, have due regard to the desirability of exercising them in a way that is designed to reduce the inequalities of outcome which result from socio-economic disadvantage”.*

67 Mae hyn yn golygu y byddai ar y sector cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i roi'r sylw dyledus i effaith economaidd-gymdeithasol ei benderfyniadau allweddol, a allai elwa ar ragor o drafodaethau â'r undebau a chyflogwyr.

68 Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ddangos sut maent wedi deall ac wedi ystyried anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol, gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n cael ei beri gan anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Cynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol

69 Yng ngoleuni ein hamcanion polisi, rydym yn cynnig deddfwriaeth i ffurfioli ac i wella effeithiolrwydd y mecanweithiau presennol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol; i wneud egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg yn rhan o drefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus sydd â dyletswydd sector cyhoeddus; ac i'w wneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ddefnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus i hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol, gan gynnwys gwaith teg ac egwyddorion partneriaeth gymdeithasol eraill.

Ffurfioli a gwella effeithiolrwydd mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol presennol

70 Mae partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru wedi'i hen sefydlu. Roedd yn gyfrifol am helpu i gynnal lefelau cyflogaeth yn wyneb yr argyfwng ariannol yn 2008; mae wedi helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisiâu a thrawsnewid gwasanaethau; ac wedi cyfrannu at berthynas gadarnhaol gyson rhwng gweithwyr a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, hyd yn hyn mae mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol wedi cael eu cyfyngu i raddau helaeth i sector penodol, ac wedi tyfu ar sail ad hoc. Er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd arferol o weithio yng Nghymru ac i sicrhau dulliau gweithredu cyson, rydym yn cynnig sefydlu strwythurau drwy ddeddfwriaeth.

71 Rydym yn cynnig sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gyda'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr allweddol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yr undebau llafur a llywodraeth. Bydd y Cyngor yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog a bydd yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Dod i gytundeb ar broblemau yn y gweithlu o fewn rhannau datganoledig o'r sector cyhoeddus er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus;
- Dod i gytundeb ar yr hyn a ddisgwylir gan sefydliadau a busnesau sy'n derbyn arian cyhoeddus mewn perthynas â phroblemau yn y gweithlu;
- Ystyried yn gyffredinol sut y gall partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd er mwyn sicrhau Cymru ffyniannus a gwella llesiant pobl;

- Ystyried sut y gall polisïau, gwariant a deddfwriaeth y Llywodraeth wneud y cyfraniad gorau at Gymru ffyniannus a gwella llesiant pobl.

72 Rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cyfuno gwaith Cyngor Datblygu'r Economi a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu, ac yn datblygu rhaglen waith sengl. Rydym wedi ymrwymo i adolygu strwythurau partneriaeth gymdeithasol presennol, a bydd y gwaith hwn i symleiddio strwythurau'n bwydo i mewn i'r gwaith o sefydlu is-grwpiau.

73 Mae pryderon wedi codi nad yw cytundebau y daethpwyd atynt drwy'r mecanweithiau presennol bob amser yn cael eu gweithredu mewn modd cyson, yn enwedig mewn perthynas â phroblemau gyda'r gweithlu sydd â'r nod o wella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi cael eu datganoli. Mae llawer o bobl o'r farn, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, y bydd y mecanweithiau hyn yn bwysicach byth wrth amddiffyn a hyrwyddo hawliau gweithwyr a sicrhau tegwch ar gyfer busnesau. Felly, yn rhannol mewn ymateb i'r posibilrwydd y bydd Brexit heb gytundeb, mae angen atgyfnerthu'r mecanweithiau hyn.

74 Un o egwyddorion sylfaenol partneriaeth gymdeithasol yw bod arbenigedd yn cael ei rannu o fewn cyd-ymrwymiad i wella parhaus, a bod canlyniadau y cytunir arnynt yn cael eu gweithredu mewn modd cyson. Er mwyn sicrhau bod canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu hyrwyddo a'u gweithredu'n gyson, cynigir bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau traws-sector ar y mater hwn.

Sefydlu gwaith partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus a hyrwyddo amcanion gwaith teg

75 Rydym wedi gweld manteision partneriaeth gymdeithasol ac mae ein cynigion yn ei halinio'n agosach â threfniadau partneriaeth eraill, gan sefydlu cydlynad gwell â'r ffyrdd o weithio blaengar a gafodd eu sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gwaith teg yn hanfodol i gyflawni nod cenedlaethol i sicrhau Cymru ffyniannus a'n hamcan llesiant i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol.

76 Er mwyn helpu'r sector cyhoeddus i weithio tuag at yr amcanion hyn, rydym yn cynnig rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol ac i hyrwyddo amcanion gwaith teg. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sector cyhoeddus sefydlu eu mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol eu hunain ac ystyried a yw eu penderfyniadau strategol yn cyfrannu at yr amcan i sicrhau ein bod yn wlad sy'n hyrwyddo gwaith teg. Byddai dyletswydd o'r fath yn ategu ac yn rhoi rhagor o sylw i adran 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Defnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg

- 77 Bob blwyddyn mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn caffael cynhyrchion a gwasanaethau gwerth £6.3 biliwn. Pan fyddwn yn ymrwmo i'r contractau hyn, nid yn unig rydym yn prynu'r pethau sydd eu hangen ar wasanaethau cyhoeddus, rydym hefyd yn buddsoddi yn yr economi ac yn cefnogi pobl Cymru.
- 78 Mae gennym bolisi manteision cymunedol sefydledig iawn sy'n amlinellu ein disgwyliadau ynghylch y manteision rydym am eu gweld pan fyddwn yn caffael cynhyrchion a gwasanaethau, ac mae'n berthnasol i gontractau caffael £2 miliwn neu'n fwy.
- 79 Yn 2017 gwnaethom ategu hynny â'r *Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi*. Gwnaethom annog sefydliadau i ymrwmo i'r 12 ymroddiad a fydd yn helpu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol, ac i sicrhau bod gweithwyr ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn cael eu trin yn deg. Mae dros 200 o sefydliadau wedi ymrwmo i'r cod.
- 80 Rydym yn credu y gallwn wneud mwy i egluro bod mwy i werth am arian na chael pethau am y pris isaf, yn enwedig lle mae'r pris isaf yn trosglwyddo costau i'r rhai sy'n llai abl i'w fforddio neu i'r wlad mewn ffyrdd eraill. Mae gwerth am arian hefyd yn cynnwys canlyniadau cymdeithasol. Er nad ydym am gael gwared ar unrhyw hyblygrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd, rydym am sicrhau bod pob rhan o'r sector cyhoeddus yn mynd yn yr un cyfeiriad.
- 81 Mae ein hymrwymiad i waith teg a thwf economaidd cynhwysol yn adlewyrchu'r ffaith, gyda Chymru yn gweld y lefelau cyflogaeth uchaf erioed, nad ydym yn gallu cynnal swyddi peth bynnag yw'r pris. Rydym am weld swyddi da sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i waith teg. Mae'r polisi manteision cymunedol wedi bod yn canolbwyntio ar gyflogaeth drwy helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith. Rydym yn cynnig ei newid i adlewyrchu'n well amcanion gwaith teg.
- 82 Rydym yn cynnig deddfwriaeth i gyflwyno system ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus lle mae gwaith teg yn ganolog. Yn hytrach na gofyn i awdurdodau contractio ystyried manteision cymunedol fesul contract, byddem yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio strategaeth gaffael. Byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol y byddai'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus eu hystyried wrth lunio eu strategaeth gaffael. Byddai strategaeth yn galluogi cyrff cyhoeddus i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn ffordd hyblyg a chymesur, ar yr un pryd â bod yn atebol inni am wneud hynny. Byddem yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r ffordd mae wedi gweithredu'r strategaeth, ac rydym yn rhagweld y byddai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn adolygu'r datganiadau.

Gorfodi

- 83 Ein nod yw creu a chefnogi partneriaethau effeithiol. Mae'r rhain yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac yn datblygu ac yn aeddfedu gydag amser a thrwy brofiad. Mae'n rhaid caniatáu i berthnasau dyfu mewn modd organig; i ddatblygu eu gwerth eu hunain. Felly, er mwyn i bartneriaid dyfu gyda'i gilydd, mae angen inni roi'r amser a'r cyfleoedd iddynt ffynnu. Nod ein cynigion deddfwriaethol yw darparu'r sylfeini ar gyfer y datblygiad hwn – maent yn sefydlu strwythurau a fframweithiau i'w gwneud yn haws i bartneriaid weithio gyda'i gilydd, i normaleiddio a chyfundrefnu rhywbeth y dangoswyd eisoes ei fod yn fuddiol i bob partner.
- 84 Fodd bynnag, rydym yn gwybod pa mor niweidiol y gallai fod i berthynas pan fydd un partner yn tynnu ei gefnogaeth neu pan nad yw un partner yn cyflawni eu hymrwymadau mae wedi eu gwneud. Felly, rydym yn ceisio safbwyntiau ynghylch a ddylai ein deddfwriaeth gynnwys mesurau i atgyfnerthu'r penderfyniadau a wneir drwy'r strwythurau hyn.
- 85 Yn y lle cyntaf, rydym yn gweld rôl ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ei hun. Bydd yn ystyried achlysuron pan nad yw corff cyhoeddus wedi cyflawni'r ymrwymadau a wnaed ar ei ran, a bydd yn gofyn i'r corff egluro pam na a gofyn iddo ymrwymo i weithredu'r penderfyniad.
- 86 Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau sydd ar y gweill yn sefydlu dull ar gyfer perfformiad, a fydd yn seiliedig ar hunanasesu ac asesiadau cyfnodol gan banel a arweinir gan gymheiriaid. Bydd ein canllawiau statudol yn ei gwneud yn glir bod y ffordd mae Cyngorau'n gweithredu arferion partneriaeth gymdeithasol a chanlyniadau polisi'n ystyriaeth allweddol wrth benderfynu a yw Cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol ac yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd effeithlon. Rydym eisoes yn gallu gofyn i fyrddau iechyd lleol weithredu penderfyniadau a wneir, a gallwn atodi amodau i grantiau gan gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
- 87 Yn ogystal gallai camau i orfodi cydymffurfedd fynd ymhellach ac, er enghraifft, rhoi cosb ariannol ar gyrff cyhoeddus nad ydynt yn glynu wrth gytundebau a wneir yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, neu ar y rhai nad ydynt yn gosod eu contractau caffael yn unol â'u strategaeth gaffael.
- 88 Mae angen cydbwysu gallu'r camau hyn i annog cydymffurfedd â'r effaith bosibl ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a byddai angen i unrhyw gosb ariannol fod yn gymesur â'r tramgwydd.

Cwestiwn 3: A ydych yn credu y dylem gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol, a pha fath o gamau gorfodi y gellid eu cynnwys?

89 I grynhoi, rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol – a fydd yn cynnwys y Llywodraeth, cynrychiolwyr cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a'r undebau llafur i ddarparu cyngor ar wella gwasanaethau cyhoeddus a gwella datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru (gan gynnwys lleihau anghydraddoldebau);
- Datblygu 'egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol' fel y sail ar gyfer datblygu ffordd gydlynus sengl ac unedig, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn chwarae rôl wrth gefnogi ac annog yr arferion gorau;
- Cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac i hyrwyddo amcanion gwaith teg pan fyddant yn gwneud penderfyniadau;
- Rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gaffael mewn modd sy'n ystyried materion cymdeithasol (lle bo hynny'n ymarferol).

90 Byddai hyn yn sefydlu fframwaith ar gyfer sicrhau trefniadau caffael sy'n ystyried materion cymdeithasol.

CWESTIWN 4: Ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth i gyflawni ein cynigion i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru?

Casgliadau

91 Rydym yn ddiolchgar i'n partneriaid am eu hymroddiad parhaus i bartneriaeth gymdeithasol. Gyda'n gilydd rydym wedi atgyfnerthu ymateb polisi Llywodraeth Cymru ac wedi cyflawni polisiâu'n brydlon i fynd i'r afael â'r risgiau a berir gan ddegawd o bolisiâu cyni gan Lywodraeth y DU, gan amddiffyn swyddi a gwella gwasanaethau cymdeithasol.

92 Bwriedir i'r cynigion rydym wedi eu gwneud atgyfnerthu'r trefniadau hyn a'u paratoi ar gyfer agenda uchelgeisiol newydd i sicrhau Cymru fwy cyfartal, yn rhannol mewn ymateb i argymhellion gan y Comisiwn Gwaith Teg.

93 Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i sicrhau bod pob agwedd ar y cynigion yn cael eu harchwilio'n drwyadl ac mewn modd agored.

94 Croesawir ymatebion i'r cynigion allweddol a amlinellir yn y ddogfen hon ynghyd ag unrhyw sylwadau ar y manteision, y risgiau a'r cyfleoedd.

Y Camau Nesaf

- 95 Rydym am glywed eich barn am y cynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol (Cymru) ac am y cynigion ehangach a gynhwysir yn y Papur Gwyn hwn. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 9 Ionawr. Ystyrir yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wrth gynllunio'r camau nesaf.
- 96 Cewch lawrlwytho'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb yn rhad ac am ddim. Os hoffech gael copi o'r ymgynghoriad a/neu'r ffurflen ymateb mewn fformat gwahanol (e.e. copi caled, Braille, print bras) cysylltwch â ni yn y cyfeiriadau isod.
- 97 Efallai y byddwch am ddefnyddio'r ffurflen ymateb yn Atodiad 3. Rydym yn croesawu ymatebion ar ffurf galed a thrwy e-bost:

Y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

SocialPartnership@llyw.cymru

Atodiad 1: Crynodeb o'r Effeithiau

Amcan y Polisi

Ein nod cyffredinol wrth hyrwyddo partneriaethau cymdeithasol yw gwella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus a mabwysiadu dulliau gweithredu mwy cytbwys ar gyfer datblygu economi Cymru drwy leihau anghydraddoldeb.

Diben y mesurau arfaethedig hyn yw creu sail statudol ar gyfer partneriaethau cymdeithasol fel rhan o'r ymatebion i ganfyddiadau'r Comisiwn Gwaith Teg, a wnaeth gyfres o argymhellion ynghylch sut y dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo arferion gwaith teg ledled Cymru. Mae'r cynigion yn rhan o'n huchelgais ehangach i ysgogi rhagor o gydraddoldeb a thwf economaidd cynhwysol.

Cynigir y bydd y ddeddfwriaeth yn gwneud y canlynol:

1. sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Statudol;
2. rhoi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac i hyrwyddo amcanion gwaith teg;
3. ei gwneud yn ofynnol i rai cyrrff cyhoeddus lunio strategaeth gaffael yn unol â chanllawiau statudol.

Bydd asesiad cynhwysfawr o'r effeithiau, gan gynnwys sut y bydd model ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn darparu canlyniadau economaidd-gymdeithasol ac arferion gwaith teg, yn cael ei gwblhau yn dilyn yr ymgynghoriad.

Mae'r crynodeb lefel uchel o'r effeithiau'n amlinellu sut y gallai rhai o'r newidiadau effeithio ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Y Cefndir

Mae trefniadau partneriaeth gymdeithasol eisoes yn bodoli ar draws gwasanaethau sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn dod ag undebau llafur, cyflogwyr gwasanaeth cyhoeddus a Llywodraeth Cymru at ei gilydd i drafod materion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Mae trefniadau ategol ar waith ym meysydd iechyd, addysg a llywodraeth leol – sydd weithiau'n unigryw i sector penodol, ac ar gyfer cyrrff a noddur gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyngor Datblygu'r Economi a'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol yn darparu trefniadau tebyg ar gyfer partneriaeth gymdeithasol sy'n dod â'r sector preifat, sefydliadau busnes, yr undebau llafur a Llywodraeth Cymru at ei gilydd.

Ystyriaethau Economaidd

Er gwaethaf lefelau cyflogaeth uwch, mae'r bwch rhwng y bobl gyfoethocaf a'r rhai tlotaf yn parhau i ehangu. Ar gyfer llawer, mae'r cynnydd yn eu cyflogau wedi bod yn is na'r cynnydd mewn costau byw, ac mae trefniadau cyflogaeth wedi dod yn fwy ansefydlog a llai diogel.

Yng Nghymru mae incwm aelwydydd cyfartalog a lefel cyflogau'n parhau i fod yn is nag ym manau eraill y DU. Nid yw manteision twf economaidd yn cael eu rhannu'n gyfartal, ac mae pobl yn cael eu gadael ar ôl wrth i'r lefelau o dlodi mewn gwaith barhau i godi. Mae swyddi achlysurol, ansicr a swyddi â chyflogau isel yn parhau i fod y prif fathau o swydd mewn rhai sectorau.

Ein bwriad yw y bydd trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn helpu i wireddu ein huchelgais ar gyfer economi fwy cyfartal, ac yn cynyddu ein llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymaint ag y bo modd.

Effeithiau

Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Statudol

Disgwylir i'r Cyngor hwn gydgrynhoi'r trefniadau presennol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a amlinellir uchod, gan greu cynrychiolaeth gryfach a chasglu llawer o safbwyntiau. Disgwylir y bydd sefydlu ein trefniadau mewn cyfraith yn darparu sail gryfach ar gyfer statws y cyngor ac allbwn y trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol – mae angen hyn er mwyn cyflawni ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer Cymru fwy cyfartal. Er ein bod yn cynnig newid strwythurau, ni ddisgwylir newid sylweddol cyffredinol i aelodaeth na galw uwch ar y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector nag sydd eisoes yn bodoli.

Sicrhau gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus a hyrwyddo amcanion gwaith teg

Gan adeiladu ar rai o egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, byddai hyn yn rhoi dyletswydd benodol ar gyrf cyhoeddus i ystyried canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru, gyda phŵer statudol cysylltiedig i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau o fewn y ddeddfwriaeth. Mae cyrff cyhoeddus a allai fod yn ddarostyngedig i ganllawiau'n cynnwys:

- Cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru
- Cyngor tref neu gymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
- Corff llywodraethu ysgol neu ffederasiwn a gynhelir
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhagwelir y byddai canllawiau'n dilyn trafodaeth a chytundeb yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch y canllawiau penodol sydd i'w cyhoeddi. Mae

enghreiffiau o'r canllawiau a gyhoeddwyd yn dilyn trafodaethau o fewn y strwythurau partneriaeth gymdeithasol presennol yn cynnwys y cod dwy haen traws-sector ar gyfer gweithlu'r sector cyhoeddus (*yn ffurfiol Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu*) a chanllawiau ar ddefnyddio contractau dim oriau o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Byddem yn disgwyl i gost llunio canllawiau ddod o gyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru. Mae canllawiau anstatudol eisoes yn cael eu cynhyrchu ar y meysydd y disgwylir y byddent yn ddarostyngedig i ganllawiau statudol o dan y ddeddfwriaeth, felly disgwylir i'r gost fod yn niwtral.

Mae enghreifftiau o allbynnau tebyg gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- Mae'r cod dwy haen (*y cod*) yn ymdrin ag anfanteision canfyddedig i staff sydd ar gontract allanol a staff sy'n cael eu recriwtio i weithio ochr yn ochr â'r gweithlu sydd wedi cael ei drosglwyddo, gan sicrhau cysondeb o ran telerau ac amodau cyflogaeth. Mae cyrff sector cyhoeddus yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ar y ffordd maent wedi cymhwyso'r cod. Gallai fod effaith ar gostau'r contract i'r cyrff cyhoeddus o ganlyniad i ymrwymo i gyflogi staff newydd ar delerau ac amodau tebyg. Nid yw problemau mewn perthynas â chostau uwch wedi cael eu codi yn yr adroddiadau ers i'r cod gael ei gyflwyno.
- Cafodd egwyddorion a chanllawiau ar beidio â gwarantu isafswm o oriau (contractau dim oriau) eu cyhoeddi yn 2016. Mae'r canllawiau'n amlinellu'n glir y disgwyliadau mewn perthynas â'r arferion y dylai pob cyflogwr sector cyhoeddus eu mabwysiadu, i sicrhau nad yw trefniadau lle nad yw isafswm o oriau'n cael eu gwarantu yn cael eu defnyddio ond mewn amgylchiadau cyfyngedig sy'n cael eu diffinio'n glir. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu sefydliadau i osgoi defnyddio contractau dim oriau o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Nid ydym yn gwybod am unrhyw gostau penodol, ar wahân i gostau adrodd, sy'n gysylltiedig â'r canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi. Rydym yn deall bod y costau adrodd fel arfer yn cael eu cynnwys yn swyddogaeth adnoddau dynol cyrff cyhoeddus.

Rhagwelir y gallai trafodaethau yn y dyfod ynghylch canllawiau ganolbwyntio ar argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg neu ar elfennau o'u diffiniad o 'waith teg'.

Gofyniad i rai cyrff cyhoeddus lunio strategaeth gaffael yn unol â chanllawiau statudol

Cyflwyno dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus lunio strategaeth gaffael sy'n darparu ffordd i sefydliadau ddangos eu hymrwymiad hir tymor i agenda gwaith teg Llywodraeth Cymru, a disgwylir iddi ategu twf economaidd a chynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor hir.

Byddem yn disgwyl i fanylion yr hyn y dylai'r strategaeth ei gynnwys gael eu cynnwys yn y canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus. Disgwylir i strategaeth gaffael helpu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus i sicrhau canlyniadau gwaith teg, gan gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector, i ddangos

sut maent yn cyfrannu at yr agenda. Bydd hefyd gost i gyrff cyhoeddus o ran llunio a dilyn strategaeth gaffael y disgwylir iddynt ei dalu o gyllidebau presennol.

Bwriedir i'r gofyniad i lunio strategaeth gaffael annog twf economaidd, hyrwyddo arferion gwaith teg a chyflogau teg, ond ni fwriedir iddi atal neu rwystro pobl rhag cymryd rhan yn ein prosesau caffael. Bydd angen gweithredu'r ddyletswydd mewn modd sensitif sy'n gymesur â'r camau mae sefydliadau'n eu cymryd i gyflawni'r agenda gwaith teg – er enghraifft, drwy hyrwyddo'r Cyflog Byw, lleihau'r defnydd amhriodol o gontractau dim oriau neu fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu eu gweithlu. Mae'n debyg y bydd yn cael effaith uniongyrchol ar y sefydliadau hynny nad ydynt yn bwriadu cymryd camau i gyflawni'r agenda gwaith teg.

Mae'n bosibl y bydd rhai busnesau'n anfodlon manteisio ar gyfleoedd caffael Llywodraeth Cymru, ac mae perygl y bydd y sefydliadau hynny'n defnyddio telerau ac amodau penodol ar gyfer staff sy'n gweithio ar y contract. Bydd y rhain yn dibynnu ar y telerau penodol mae'n debyg eu bod wedi cael eu hystyried gan bob sector drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

Rhagwelir manteision o ganlyniad i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol. Bydd ein cynigion ar gyfer Bil Deddf Partneriaeth Gymdeithasol yn codeiddio ein trefniadau mewn cyfraith ac yn darparu sail gadarn i ddwysáu'r gweithredu i sicrhau gwaith teg. Rydym yn atgyfnerthu ein seilwaith partneriaeth gymdeithasol i ymdopi ag agenda fwy uchelgeisiol, gan bennu'r cyfeiriad ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwerthoedd economaidd blaengar rydym am eu hymsefydlu mewn cymdeithas gynhwysol lle mae pawb ar eu hennill.

Drwy bartneriaeth gymdeithasol rydym wedi osgoi rhywfaint o'r gweithredu diwydiannol a fu yn Lloegr – mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân, contractau meddygon iau a llwyth gwaith athrawon. Mewn ymateb i'r agenda cyflogau cyfartal yn yr awdurdodau lleol, daeth yr undebau llafur a'r cyflogwyr yng Nghymru i gytundeb. Helpodd hyn i osgoi'r llw o hawliadau a wnaed drwy gyfreithwyr dim ennill dim ffi yn Lloegr, a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ymglyfreithio – gan gadw'r arian o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Atebion allweddol i'r heriau ariannol – a achoswyd yn bennaf gan agenda gyny Llywodraeth y DU – mewn partneriaeth gymdeithasol drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu. Yn ogystal â'r enghreifftiau uchod, rydym wedi cytuno ar brotocol a chanllawiau traws-sector ar gyfer rheoli newid sefydliadol yn y sector cyhoeddus, ac wedi hyrwyddo cyflogau gwell drwy bartneriaeth gymdeithasol. Yn ogystal mae'r Cyflog Byw Go lawn wedi cael ei fabwysiadu ar draws GIG Cymru, mewn nifer o awdurdodau lleol, mewn parciau cenedlaethol, mewn Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch.

CWESTION 5: A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'ch cynigion arfaethedig yr hoffech dynnu sylw atynt?

Atodiad 2: Crynodeb o'r Cwestiynau

Cwestiynau:

1. A ydych yn cytuno â'r cynigion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt?
2. A ydych yn cytuno y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal?
3. A ydych yn credu y dylem gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol, a pha gamau gorfodi y gellid eu cynnwys?
4. Ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth i gyflawni ein cynigion i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru?
5. A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'ch cynigion arfaethedig yr hoffech dynnu sylw atynt?

Atodiad 3 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cwblhewch ac anfon y ffurflen at:

Y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

SocialPartnership@llyw.cymru

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 9 Ionawr a derbynnir ymatebion hyd at y dyddiad hwnnw. Croesawir ymatebion ar ffurf electronig neu ar ffurf galed.

**Ffurflen Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cynigion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt?

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal?

Cwestiwn 3. A ydych yn credu y dylem gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol, a pha gamau gorfodi y gellid eu cynnwys?

Cwestiwn 4. Ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth i gyflawni ein cynigion i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru?

Cwestiwn 5: A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'ch cynigion arfaethedig yr hoffech dynnu sylw atynt?

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma:

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, a darparu fframwaith i hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol gwell ar gyfer gweithwyr yng Nghymru ar draws yr economi.

Cwestiwn A: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Nodwch yma:

Cwestiwn B: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nodwch yma:

Cwestiwn C: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt.

Nodwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: